


Archwilydd Cyffredinol Cymru

Auditor General for Wales

# Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000

Adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru




# ADRODDIAD CYFFREDINOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU: ARCHWILIAD ARIANNOL O GYFRIFON 1999-2000

Adroddiad gan yr Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

22 Mawrth 2001

# CYNNWYS


**Crynodeb gweithredol** **1**

Rheolaeth Ariannol 1
Cyfrifo adnoddau a chyllidebu 2
Rheolaeth gorfforaethol 3
Gweithio gyda'r Uned Archwiliad Mewnol 3
Edrych ymlaen 4

**Rhan 1: Cyflwyniad** **5**

Archwilydd Cyffredinol Cymru 5
Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru 5

**Rhan 2: Rheolaeth ariannol** **6**

Cyflwyniad 6
Rôl y Swyddog Cyfrifo 6
Fy rôl fel archwilydd allanol 6
Canlyniadau arholiadau archwilio 7

**Rhan 3: Ychwanegu gwerth** **11**

Cyflwyniad 11
Ychwanegu gwerth - gwasanaethau i gleientiaid 11
Arolygon sicrwydd ychwanegol 11
Adroddiadau i reolwyr 12

**Rhan 4: Cyfrifo adnoddau a chyllidebu** **14**

Cyflwyniad 14
Gweithredu cyfrifo adnoddau 14
Cyfrifon adnoddau a baratowyd gan y Cynulliad ar gyfer 1999-2000 14
Datblygiadau yn y dyfodol 14

**Rhan 5: Rheolaeth gorfforaethol** **16**

Cyflwyniad 16
Datblygu rheolaeth gorfforaethol 16
Pwyllgorau archwilio 17
Datblygiadau yn y dyfodol 17

**Rhan 6: Archwiliad mewnol** **18**

Cyflwyniad 18
Rôl yr archwilydd mewnol 18
Darparwyr gwasanaethau archwiliad mewnol yng Nghymru 18
Sicrwydd a roddwyd gan archwilwyr mewnol ar gyfer 1999-2000 18
Dibynnu ar archwiliad mewnol 19

| Rhan 7: Edrych ymlaen | 20 |
|---|---|
| Cyflwyniad | 20 |
| Ymdrin â blaenoriaethau'r Cynulliad | 20 |
| Newid cyfansoddiadol a threfniadol ers 1 Ebrill 2000 | 20 |
| Ychwanegu Gwerth | 21 |

| Atodiad | 22 |
|---|---|


## Rhestr o'r ffigurau a ddefnyddir yn yr adroddiad


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| Ffigur 1: | Cyfrifon a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru 1999-2000. | 5 |
| Ffigur 2 | Materion pwysig y GIG | 10 |
| Ffigur 3: | Materion yr ymdrinnir â hwy mewn arolwg sicrwydd ychwanegol nodweddiadol | 11 |
| Ffigur 4: | Siart gylch yn dangos rhaniad canrannol y pwyntiau llythrennau rheoli a godwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru | 12 |
| Ffigur 5: | Darparwyr gwasanaethau archwiliad mewnol | 18 |
| Ffigur 6: | Enghreifftiau o feysydd lle yr oedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gallu dibynnu i ryw raddau ar waith Archwiliad Mewnol, mewn perthynas â rhai o'r cyrff a archwiliwyd | 19 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

1 Mae'r adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn crynhoi canlyniadau'r archwiliadau ariannol ac ymchwiliadau cysylltiedig a gynhaliwyd mewn perthynas â blwyddyn ariannol 1999-2000 - y flwyddyn ariannol gyntaf i gwmpasu gweithgareddau'r Cynulliad. Lle bo hynny'n berthnasol, cyfeiria'r adroddiad hwn hefyd at waith gwerth am arian cysylltiedig mewn llaw neu waith yr ymgymerwyd ag ef. Felly mae'n amlygu prif nodweddion yr amgylchedd rheoli ariannol y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdano. Amlinella'r trefniadau ariannol trosiannol ar gyfer y broses ddatganoli, trefniadau cyfrifo'r Cynullliad a'i gyrff noddedig, a noda'r heriau ar gyfer y dyfodol (paragraff 1.1).

2 Fe'm penodwyd yn Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 1 Mehefin 1999 ac mae'n ofynnol i mi dystio cyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru o 1999-2000, gan gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i'r Cynulliad.

## Rheolaeth ariannol

3 Y canlyniadau allweddol o'm harchwiliadau o gyfrifon 1999-2000 yw:

- Rhoddais farn ddiamod ar bob un o'r 28 o gyfrifon a archwiliwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 1999-2000 heblaw dau (paragraff 2.8);

Cyflwynais yr adroddiadau canlynol hefyd ar gyfrifon:

- **Cynulliad Cenedlaethol Cymru:** Cyflwynais adroddiad ar ganlyniadau fy archwiliad o'r cyfrifon cyntaf ar gyfer y Cynulliad a oedd yn cwmpasu'r cyfnod o etholiadau Mai 1999 hyd at 31 Mawrth 2000. Soniais am y datblygiadau ariannol a chyfrifo allweddol sy'n wynebu'r Cynulliad ac i ba raddau y maent wedi eu datblygu. Canolbwyntiodd fy nghanfyddiadau hefyd ar y ffaith bod y cyfrifon drafft wedi eu cyflwyno'n hwyr i'w harchwilio ac ar fethiant y Cynulliad i gysoni ei lyfr cyfrifon cyffredinol i gyfriflenni mewn modd amserol (paragraff 2.11);

- **Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Menter Coedwigaeth Cymru:** Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gweithredu system gyfrifo ganolog a llyfrau cyfrifon y deillia'r cyfrifon ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr ohonynt. Nid oedd y Comisiwn yn gallu cysoni'r arian parod net a oedd yn ofynnol, fel y cofnodwyd yn y cyfrifon cenedlaethol amrywiol, i werth net y derbyniadau a'r taliadau a gofnodwyd yn y Cyfrifon Dosbarthu Seneddol. O ganlyniad i'r ansicrwydd hwn rhoddais farn amodol ar gyfrifon y ddau sefydliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000 (paragraff 2.15).

- **Awdurdod Datblygu Cymru:** Cyflwynais adroddiad ar gaffaeliad yr Asiantaeth o asedion a rhwymedigaethau penodol gan gyn Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ac ar gaffael Hybu Bwyd Cymru Cyfyngedig. Deuthum i'r casgliad fy mod yn fodlon ar y trefniadau cyfrifo ynghylch y caffaeliadau hyn a'u datgeliad yng nghyfrifon 1999-2000 yr Asiantaeth (paragraff 2.17).

- **Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru):** Cyflwynais adroddiad ar ganlyniadau fy archwiliad o gyfrifon cryno'r GIG ar gyfer blwyddyn ariannol 1999-2000. Cyfeiriais at berfformiad ariannol cyrff y GIG a materion rheoli, megis rheolaeth gorfforaethol, esgeulustod clinigol a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â thwyll yn y GIG (paragraff 2.21).

4 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gyfres o arolygon "sicrwydd ychwanegol" hefyd i archwilio agweddau penodol ar y gweithrediadau o fewn pob un o'r Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a allai effeithio ar weinyddiaeth ariannol y sefydliadau hynny. Ar y cyfan, roedd y canlyniadau yn foddhaol ac ymdriniwyd â phob un o'r pwyntiau allweddol a godwyd y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, bu rhai enghreifftiau achlysurol o gyrff yn methu â cheisio cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Cynulliad neu'r hen Swyddfa Gymreig mewn perthynas â chontractau tendro cyfyngedig neu o fethu â chydymffurfio â'r terfynau a'r gweithdrefnau ariannol penodedig, fel y nodwyd yn eu memodrandwm ariannol. Ar gyfer rhai cyrff penodol cyfeiriodd yr arolygon hefyd at ddatblygiadau mewn perthynas â therfynau Cymorth Gwladol yr Undeb Ewropeaidd a'u heffaith ar roi arian i'r sector preifat (paragraff 3.3).

5 Fel rhan o'i gwasanaeth, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn rhoi cyngor i reolwyr bob corff archwiliedig, gan argymell gwelliannau i'r rheolaethau a'r systemau ariannol. Codir y materion mwy sylweddol mewn adroddiadau ffurfiol at y rheolwyr (paragraff 3.8). Un thema barhaus a gododd o archwiliadau 1999-2000 oedd:

- **Meddu ar wybodaeth gyfrifo flynyddol a gyflwynir ar gyfer archwiliad:** mae gofyn i bob corff cyhoeddus baratoi datganiadau ariannol, ac mae pob Swyddog Cyfrifo yn bersonol gyfrifol am y dogfennau pwysig hyn. Mae angen i'r rheolwyr arolygu dilysrwydd yr holl wybodaeth a gofnodir yn y datganiadau hynny er mwyn sicrhau ei bod yn gyson â'u gwybodaeth am weithgareddau'r sefydliad a'i bod yn adlewyrchu'r trafodion ariannol sylfaenol yn gywir. Canfu Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod gwelliannau wedi eu gwneud yn ystod 1999-2000 mewn perthynas â gwirio gwybodaeth sylfaenol er, yn gyffredinol, bod angen gwneud mwy o hyd i sicrhau bod cyfrifon a gwybodaeth ategol y sefydliadau a gyflwynir i'w harchwilio yn ddibynadwy, cywir ac o ansawdd da. Dylai'r rheolwyr sicrhau hefyd y cynhaliwyd yr arolygon angenrheidiol cyn i'r cyfrifon gael eu cyflwyno i'w harchwilio (paragraffau 3.14 a 3.15).

## Cyfrifo adnoddau a chyllidebu

6 O 1 Ebrill 2000 bydd yn ofynnol i'r Cynulliad gynhyrchu cyfrifon adnoddau cyfunol. Ar y dechrau, bydd hyn yn golygu y bydd y cyfrifon yn ymgorffori canlyniadau ariannol ac asedion a rhwymedigaethau awdurdodau iechyd Cymru, Cadw a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nod y Trysorlys yn y pen draw yw cyhoeddi cyfrif ar gyfer Llywodraeth Gyfan Cymru a fyddai'n cynnwys cyfrifon cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddai'r cyfrif hwn, yn ei dro, yn cael ei atgyfnerthu mewn cyfrif Llywodraeth Gyfan y Deyrnas Unedig (paragraff 4.6).

7 Bydd cyflwyno cyllideb ar sail adnoddau yn rhoi trefn ar y broses gyllidebu a chofnodi gan arwain at gymhariaeth fwy ystyrlon rhwng gwariant amcangyfrifedig a chanlyniad cofnodedig. Mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo adrannau'r llywodraeth i gyflwyno cyllideb adnoddau o 1 Ebrill 2001. Fodd bynnag, o dan eu pwerau datganoledig, mae Cabinet y Cynulliad eto i bennu dyddiad pendant ar gyfer ei gweithredu, ond mae wedi cytuno mewn egwyddor i'w chyflwyno o 1 Ebrill 2002. Byddaf yn arolygu'r cynnydd yn y maes hwn, ac ym maes cyfrifo adnoddau a chyllidebu yn fwy cyffredinol, yn barhaol (paragraff 4.8).

## Rheolaeth gorfforaethol

8 Yn dilyn gwaith Pwyllgor Cadbury, Pwyllgor Nolan a Grwp Rutteman, cyflwynodd Pwyllgor Turnbull adroddiad ym mis Ebrill 1999 yn argymell ehangu egwyddorion rheolaeth gorfforaethol i gynnwys Datganiad o Reolaeth Fewnol o fewn cyfrifon cyhoeddedig sefydliad. Bydd y Datganiad hwn yn disgrifio prosesau nodi a rheoli risgiau sefydliad a system rheolaeth fewnol a bydd yn adeiladu ymhellach ar y gofyniad cofnodi presennol sy'n cwmpasu rheolaeth ariannol yn unig. Mae arweiniad diweddaraf y Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth ddatgelu Datganiad o Reolaeth Fewnol yn eu datganiadau ariannol sy'n cwmpasu cyfnodau cyfrifo yn dechrau ar neu wedi 1 Ionawr 2003. Mae'r arweiniad yn pwysleisio hefyd bwysigrwydd y gwaith paratoadol sydd yn cael ei wneud, a dylai'r gwaith hwn gael ei oruchwylio gan Bwyllgor Archwilio pob sefydliad (Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol yn achos y Cynulliad) a dylai pob uwch reolwr ymroddi i'r gwaith hwn hefyd (paragraff 5.7).

9 Mae rôl Pwyllgor Archwilio yn sylfaenol i'r broses rheolaeth gorfforaethol ac, yn dilyn fy argymhelliad ym 1998-99, mae gan bob corff a gwmpesir gan yr adroddiad hwn Bwyllgor Archwilio yn ei le erbyn hyn (paragraff 5.12).

10 Gofynnodd Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad am sylwadau ysgrifenedig gan bob pennaeth adran fel rhan o'i arolwg rheolaeth gorfforaethol 1999-2000. Goruchwyliwyd y broses hon gan ei Bwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol (a elwir felly er mwyn osgoi dryswch â Phwyllgor Archwilio statudol y Cynulliad). Ffurfiodd yr asesiadau hyn gan uwch reolwyr ran bwysig o sicrwydd y Swyddog Cyfrifo ar weithrediad system y Cynulliad o reolaeth ariannol fewnol a darparant sail gadarn i ddatblygu'r broses o weithredu argymhellion Turnbull. Dylai'r Cynulliad ystyried cynorthwyo ei gyrff noddedig wrth iddynt ddatblygu argymhellion Turnbull fel y cyfarwyddwyd gan y Trysorlys (paragraff 5.13).

## Gweithio gyda'r Uned Archwiliad Mewnol

11 Mae'n holl bwysig bod gan bob sefydliad wasanaeth archwilio mewnol cadarn, proffesiynol a gwrthrychol, sy'n darparu archwiliadau trwyadl a chyngor i reolwyr yr endid. Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan archwiliad mewnol yn elfen allweddol o'r sicrwydd a geir gan y Swyddog Cyfrifo ynglyn â gweithredu systemau'r sefydliad o reolaeth ariannol fewnol yn effeithiol ac ar gyfer 1999-2000 roedd y pennaeth archwiliad mewnol perthnasol yn gallu rhoi'r sicrwydd a oedd yn ofynnol i bob Swyddog Cyfrifo (paragraff 6.3).

12 Serch hynny cododd pob tîm archwilio mewnol faterion yn ymwneud â'r systemau a archwiliwyd. Ymhlith yr enghreifftiau o faterion a godwyd, fel y nodwyd ym mharagraff 6.8 o'r Adroddiad hwn roedd:

- Digonolrwydd diogelwch yr asedion diriaethol fel stoc a balansau arian;
- Bu rhai enghreifftiau o dor-cymhwyso trefniadau tendro penodedig;
- Bu sawl enghraifft lle nad ymgymerwyd â gweithdrefnau rheoli a/neu lle na ddangoswyd tystiolaeth ohonynt.

13 Yn ystod blwyddyn ariannol 1999-2000 mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru wedi parhau i deimlo'n hyderus iawn ynghylch gwaith archwiliad mewnol. Mae'r cydweithredu hyn wedi helpu i leihau'r baich archwilio ac yn osgoi dyblygu ymdrech a chaiff ei gario ymlaen i 2000-01 lle bo hynny'n ymarferol. Bydd angen archwiliad mewnol trefnu rôl dyrchafedig wrth ddatblygu system rheoli risg a system rheolaeth fewnol endid (paragraff 6.9).

## Edrych ymlaen

14 Yr wyf wedi ystyried pryderon y Pwyllgor Archwilio wrth baratoi amserlen o astudiaethau Gwerth am Arian ar gyfer 2000-01 a 2001-02. Er mai fy nghyfrifoldeb i yw'r penderfyniad terfynol ar y rhaglen waith, newidiais gwmpas ac amseru'r gwaith hwn er mwyn caniatáu i astudiaethau penodol yn unol â cheisiadau'r Pwyllgor gael eu hymgorffori (paragraff 7.2).

15 Mae'r Cynulliad, fel rhan o'i weledigaeth o well llywodraeth i Gymru yn y dyfodol, wedi ymrwymo ei hun a chyrff cyhoeddus eraill i systemau a gweithdrefnau a doethineb ariannol cadarn. Bydd cyflwyno mentrau newydd fel cyfrifo adnoddau a chyllidebu a rheolaeth gorfforaethol yn dylanwadu ar gyflawni nodau o'r fath a bydd angen neilltuo adnoddau digonol i ddatblygiadau o'r fath (paragraff 7.3).

16 Mae'r Cynulliad yn rheoli nifer o newidiadau trefniadol parhaus, y mae rhai ohonynt o ganlyniad i basio deddfwriaeth newydd. Bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn chwarae rôl weithredol wrth ddatblygu cyrff newydd eu creu drwy ddarparu cymorth ac arweiniad ar faterion ariannol a rheoliadol ac edrychaf ymlaen at gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ddatblygiadau o'r fath (paragraff 7.4).

17 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, bwriadaf barhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a darbodus i'r Cynulliad a chyrff cysylltiedig ar archwiliad ariannol a gwerth am arian, a gwaith archwilio perthnasol arall, gyda'r nod o gynorthwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wario arian yn ddoeth.

1.1 Mae'r adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn crynhoi canlyniadau'r archwiliadau ariannol ac ymchwiliadau cysylltiedig yng Nghymru a gynhaliwyd mewn perthynas â blwyddyn ariannol 1999-2000. Felly amlyga'r adroddiad hwn brif nodweddion yr amgylchedd rheoli ariannol y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdano. Mae'n cwmpasu'r trefniadau cyfrifo a'r rheolaethau ariannol sydd yn eu lle ar gyfer y Cynulliad a'r cyrff y mae'n gyfrifol amdanynt, ac yn nodi'r materion ariannol a rheoli allweddol sy'n wynebu cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol. Lle bo hynny'n berthnasol, cyfeiria'r adroddiad hwn hefyd at waith gwerth am arian cysylltiedig sydd ar y gweill neu a wnaed.

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

1.2 Ar gyfer 1999-2000, archwiliais a thystiais gyfrifon y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig ac adroddais fy marn i'r Cynulliad. Cynlluniais fy archwiliadau i fodloni fy hun fod yr arian a ddarperir i'r Cynulliad a chan y Cynulliad, ymhob ystyr berthnasol, wedi ei ddefnyddio at y dibenion y'i bwriadwyd yn unig. Wrth gyflawni'r gwaith hwn ystyriais i ba raddau yr ymdriniwyd â'r arian cyhoeddus yn briodol a'r ffordd y cynhaliwyd busnes cyhoeddus ar draws y sector.

## Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

1.3 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ymgymryd â'r gwaith sy'n angenrheidiol i ategu fy nyletswyddau a'm cyfrifoldebau. Ar gyfer blwyddyn gyfrif 1999-2000, archwiliwyd 28 o gyfrifon ganddynt a chyflwynwyd adroddiadau ar y rhaglenni gwario a ariennir gan gyllideb bloc Cymru. Ar y cyfan, paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau, yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys, gan gyrff o natur, maint a chymhlethdod amrywiol a weithredodd gasgliad o weithdrefnau ariannol a systemau cyfrifo. Nodir dadansoddiad o'r cyfrifon hyn yn ôl y math o gyfrif yn Ffigur 1. Rhestrir y cyfrifon hefyd yn yr Atodiad i'r Adroddiad, ac fe'u grwpiwyd yn ôl y cynnwys perthnasol.

1.4 Paratôdd y Cynulliad gyfrif adnoddau o'r hen Swyddfa Gymreig a gwmpasai'r tri mis olaf cyn trosglwyddo ei swyddogaethau, asedion a'i rhwymedigaethau i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Daeth y Cynulliad i fodolaeth y diwrnod yn dilyn yr etholiad cyntaf (7 Mai 1999) a gwariodd rywfaint o wariant rhagarweiniol yn y cyfnod cyn y dyddiad trosglwyddo. Felly, cwmpasodd ei gyfrifon adnoddau cyntaf y cyfnod o 7 Mai 1999 i 31 Mawrth 2000.

1.5 Sefydlwyd Asiantaeth Weithredol y Cynulliad (Cadw) a chyrff cyhoeddus eraill a noddir neu a ariennir gan y Cynulliad i ymgymryd â swyddogaethau gweithredol penodol. Mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu cyfrifon ar sail croniadau, ac yn unol â gofynion y Deddfau Cwmnïau a safonau cofnodi ariannol a chyfrifo, i'r graddau y maent yn briodol i bob corff.

1.6 Mae'n ofynnol i'r Cynulliad gynhyrchu cyfrifon cryno o'r GIG yng Nghymru hefyd. Ar gyfer 1999-2000, roedd tri chyfrif o'r fath yn cwmpasu awdurdodau iechyd; ymddiriedolaethau'r GIG ; a chronfeydd a ddelir ar ymddiriedolaeth. Mae'r Cynulliad hefyd yn paratoi cyfrif cryno ar gyfer Cynghorau Hyfforddiant a Menter Cymru, a chyfrif ar gyfer trethi annomestig.

1.7 Paratôdd Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad, Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru a Choedwigaeth Cymru gyfrifon am y tro cyntaf mewn perthynas â 1999-2000. Archwiliais y cyfrifon hyn ar ran y Cynulliad

**Ffigur 1**

**Cyfrifon a archwiliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru 1999-2000**

| Math o Gyfrif | Nifer a archwiliwyd 1999-2000 |
|---|---|
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** | |
| Cyfrifon Adnoddau | 1 |
| Asiantaeth Weithredol | 1 |
| Cyfrifon Cryno GIG Cymru | 3 |
| Arall | 3 |
| **Cyrff a noddir/ariennir gan y Cynulliad** | |
| Elusennau a chronfeydd pensiwn | 5 |
| Cyfrifon cyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad | 10 |
| Eraill | 5 |
| **Cyfanswm** | **28** |

## Cyflwyniad

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canlyniadau a'r casgliadau o'm harchwiliadau yng Nghymru ar gyfer blwyddyn gyfrif 1999-2000. Yn benodol, mae'n:

- Nodi rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â'r cronfeydd y mae ef neu hi yn eu rheoli (paragraff 2.3);
- Egluro fy rôl a'm cyfrifoldebau statudol wrth archwilio'r datganiadau ariannol blynyddol a baratoir gan y Swyddog Cyfrifo (paragraff 2.4);
- Crynhoi canlyniadau fy archwiliadau o bob un o'r cyfrifon a archwiliais ym 1999-2000 (paragraff 2.8);
- Crynhoi'r adroddiadau a gyhoeddais ar gyfrifon y Swyddfa Gymreig, y Cynulliad, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Menter Coedwigaeth Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a Chyfrifon Cryno'r GIG (Cymru) (paragraff 2.10);

2.2 Yn gyffredinol, roedd safonau rheolaeth ariannol mewn cyrff cleientiaid ledled Cymru yn dda. Yr oeddwn yn gallu darparu barn archwilio ddiamod ar bob un o'r cyfrifon a archwiliais heblaw dau. Yn ystod ei waith gwnaeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru amrywiaeth o argymhellion i uwch reolwyr cyrff cleientiaid am welliannau i'r systemau rheoli, cydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio a'r prosesau cyfrifo.

### Rôl y Swyddog Cyfrifo

2.3 Mae gan y Swyddogion Cyfrifo nifer o gyfrifoldebau allweddol o ran rheolaeth ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn mewn datganiad a amgaeir gyda phob cyfrif, ac maent yn cynnwys:

- Cadw cofnodion cywir a pharatoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio â gofynion statudol a datgelu eraill;
- Priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae ef neu hi yn gyfrifol amdano;
- Cynllunio, gweithredu ac arolygu effeithiolrwydd y systemau a'r rheolaethau mewnol. Goruchwylir y cyfrifoldeb hwn gan dîm rheoli'r corff ac fe'i cefnogir, wrth gwrs, gan gyngor oddi wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys yr archwilwyr mewnol a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

### Fy rôl fel archwilydd allanol

2.4 Archwiliais gyfrifon 1999-2000 yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Yn unol ag arfer y sector preifat, mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sy'n ymgymryd â'r gwaith ar fy rhan i:

- Ymgymryd â gweithdrefnau y bwriedir iddynt gynnig tystiolaeth archwilio ddigonol, dibynadwy a phriodol er mwyn penderfynu gyda chryn hyder a yw'r datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw wall perthnasol;
- Asesu cyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol er mwyn canfod a gawsant eu paratoi yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon perthnasol.

Un mater archwilio ychwanegol sydd yn unigryw i gyrff cyhoeddus yw rheoleidd-dra. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, fel rhan hanfodol o'u gweithdrefnau archwilio, yn asesu a ddefnyddiwyd incwm a gwariant pob corff archwiliedig, ymhob ystyr berthnasol, i'r dibenion y'u bwriadwyd, ac a ydynt yn cydymffurfio â'r awdurdodau a'r statudau priodol sy'n eu rheoli.

2.5 Adroddaf am ganlyniadau fy ngwaith archwilio ariannol fel a ganlyn:

- **Tystysgrifau i'r datganiadau ariannol** sy'n mynegi fy marn yn glir. Mae rhywfaint o amwysedd wrth baratoi pob un o'r datganiadau ariannol, ac mae angen synnwyr cyffredin wrth benderfynu ar amcangyfrifon a pholisïau cyfrifo, a'r ansicrwydd sy'n gynhenid mewn amcangyfrifon ariannol. Wrth asesu dyfarniadau o'r fath, mae'r archwilydd yn ystyried pwysigrwydd perthnasol pob mater sy'n deillio o'r archwiliad yng nghyd-destun y cyfrif cyfan. Ystyrir mater yn berthnasol pe bai ei gamfynegi neu ei hepgor yn dylanwadu'n rhesymol ar ddefnyddwyr y datganiadau ariannol wrth ddod i gasgliadau ar y wybodaeth sydd ynddynt;

- **Adroddiadau ar y cyfrif** sy'n dwyn sylw'r Cynulliad ar faterion sydd yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar wariant cyhoeddus. Adroddaf bob amser ar gyfrif pan roddaf farn archwilio amodol, ac efallai yr adroddaf hefyd ar faterion heb roi fy marn amodol os credaf eu bod o ddiddordeb sylweddol;

- **Adroddiadau i reolwyr y corff cleient a archwiliwyd**, gan roi cyngor cyfrifo adeiladol, a all gynnwys argymhellion ar gyfer gwelliannau i systemau a gweithdrefnau yn aml. Mae'r archwiliadau yn cynnwys asesu digonolrwydd systemau a chofnodion cyfrifo corff, i'r graddau bod angen gwneud hyn er mwyn cyflawni archwiliad yn effeithiol. Gall asesiadau o'r fath gyfeirio at reolaeth ariannol, rheolaethau a gweithdrefnau eraill a ddefnyddir o fewn swyddogaethau cyfrifo a gweinyddol y corff archwiliedig. Gall materion godi hefyd yn ystod y gwaith archwilio ychwanegol a wneir er mwyn ymdrin â risgiau penodol, fel rheoleidd-dra a phriodoldeb. Mae adroddiadau o'r fath yn gwneud argymhellion i ymdrin â'r materion a nodwyd, ac maent yn cynnwys ymatebion rheolwyr ac amserlenni gweithredu y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr.

### Gwaith archwilio anariannol

2.6 Yr wyf i'n archwilio ac yn ymateb hefyd i bob mater a godwyd o ran gweithrediadau'r Cynulliad a'i gyrff noddedig. Ar gyfer y cyfnod 1 Medi 1999 i 31 Rhagfyr 2000 derbyniais bedwar deg o lythyrau yn galw am ymateb sylweddol a godwyd gan aelodau'r cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad ac eraill. Ymhob enghraifft archwiliais ac ymatebais i'r materion a godwyd. Pan oedd angen, argymhellais y camau cywiro priodol i'w cymryd yn uniongyrchol i'r corff cyhoeddus neu'r cyrff cyhoeddus dan sylw.

2.7 Ers creu'r Cynulliad mae lefel gohebiaeth o'r fath wedi codi'n sylweddol. Mae natur y materion a godir yn aml yn gymhleth, gan gwmpasu meysydd fel prosiectau mewnfuddsoddi, cynlluniau adfywio, dyfarnu contractau a gwerthu eiddo. Mae fy nghyfrifoldeb dros ymdrin â'r pryderon a godir gan bobl Cymru ynghylch gweithgareddau ariannol y Cynulliad a'i gyrff noddedig o bwysigrwydd sylfaenol i egwyddorion llywodraeth agored a byddaf yn parhau i sicrhau y caiff pob mater a godir ei ystyried â gofal a sylw dyladwy.

## Canlyniadau arholiadau archwilio

### Barn archwilio

2.8 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru rhoddais farn archwilio ddiamod ar bob un o'r 28 o gyfrifon Cymreig heblaw dau a dystiais mewn perthynas â blwyddyn ariannol 1999-2000. Y ddwy set o gyfrifon y rhoddais farn amodol arnynt oedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Menter Coedwigaeth Cymru. Darpara fy adroddiadau ar y cyfrifon hyn, fel y crynhowyd ym mharagraffau 2.15 a 2.16, fanylion pellach am y rhesymau dros fy marn amodol.

### Terfyn amser statudol

2.9 O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (fel y'i diwygiwyd) yr oedd disgwyl i gyfrifon penodol ar gyfer 1999-2000 wedi eu llofnodi gael eu darparu i mi erbyn 30 Tachwedd 2000 fan pellaf. Fodd bynnag, methodd cyfrifon 1999-2000 Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru, Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Menter Coedwigaeth Cymru â chwrdd â'r terfyn amser statudol hwn o ganlyniad i anawsterau gan y cyrff dan sylw wrth baratoi eu cyfrifon am y tro cyntaf.

### Adroddiadau ar gyfrifon

2.10 Ar gyfer 1999-2000 cyflwynais adroddiadau sylweddol mewn perthynas â'r cyrff canlynol:

- y Cynulliad;
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Menter Coedwigaeth Cymru;
- Awdurdod Datblygu Cymru;
- y GIG yng Nghymru.

### *Cyfrif adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

2.11 Yn fy adroddiad dyddiedig 21Rhagfyr 2000, soniais am y cefndir statudol y tu ôl i greu'r Cynulliad, canlyniadau fy archwiliad o gyfrif adnoddau cyntaf y Cynulliad, a'r datblygiadau ariannol a chyfrifo allweddol a fydd yn wynebu'r Cynulliad yn y blynyddoedd i ddod. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn, ynghyd â'r cyfrifon, ar 31 Ionawr 2001.

2.12 Yn fy adroddiad, soniais am yr oedi ar ran y Cynulliad wrth gynhyrchu cyfrif i'w archwilio a'r rhesymau a roddwyd am gyflwyno'r cyfrif yn hwyr. Soniais hefyd am y gofynion cyfrifo ychwanegol a mwy beichus i'w gosod ar y Cynulliad yn y blynyddoedd i ddod a'r gwersi i'w dysgu o broses gyfrifo 1999-2000. Un mater o bwys yn ystod cyfnod atebolrwydd cyntaf y Cynulliad oedd ei fethiant i gysoni yn llawn ei lyfr cyfrifon cyffredinol i'r cyfriflenni misol mewn modd amserol, ac roedd y cysoni tua chwe mis yn hwyr. Adroddais am bwysigrwydd cysoni o'r fath a'r angen i glirio'r gwaith a oedd wedi ôl-gronni, a oedd yn ymwneud â 2000-01, fel mater o frys. Mae swyddogion y Cynulliad wedi dweud wrthyf bod y gwaith cysoni hwn bellach wedi ei ddiweddaru.

2.13 Er gwaethaf yr anawsterau hyn, yr oeddwn yn gallu rhoi barn archwilio ddiamod sydd yn gyflawniad canmoladwy i'r Cynulliad yn ei flwyddyn gyntaf, yn arbennig o gofio'r anawsterau a brofir ar hyn o bryd gan nifer o adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig yn hyn o beth.

2.14 Mae nifer o ddatblygiadau ariannol a chyfrifo yn wynebu'r Cynulliad o 2000-01 ymlaen. Ymhlith y rhain mae gweithredu'r broses o gyllidebu adnoddau, cyfuno cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru yng nghyfrifon y Cynulliad i ffurfio 'cyfrif Llywodraeth Gyfan Gymru" a chyflwyno system gyfrifo newydd. Byddaf yn archwilio'r ffordd y rheola'r Cynulliad y meysydd allweddol hyn fel rhan o'm harchwiliad o'i gyfrifon 2000-01.

### *Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Menter Coedwigaeth Cymru*

2.15 O ganlyniad i weithredu datganoli yng Nghymru a'r Alban a chyflwyno `cyfrifo adnoddau cafodd y Comisiwn Coedwigaeth ei gyfarwyddo gan y Trysorlys i baratoi tri chyfrif adnoddau ar wahân o weithgareddau'r Comisiwn ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr a thri chyfrif cenedlaethol hefyd ar gyfer gweithgareddau'r Fenter Coedwigaeth. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gweithredu system gyfrifo ganolog a llyfrau cyfrifon y deillia pob cyfrif cenedlaethol ohonynt. Ni lwyddodd y Comisiwn i gysoni'r arian parod net angenrheidiol, fel y cofnodwyd yn y cyfrifon cenedlaethol amrywiol, i werth net y derbyniadau a'r taliadau a gofnodwyd yn y Cyfrifon Dosbarthu Seneddol.

2.16 Er gwaethaf ymdrechion helaeth gan swyddogion y Comisiwn i gysoni'r ddau falans, yr oedd anghydbwysedd o tua £2 filiwn o hyd, a chofnodi taliadau mewnol yn anghywir oedd y rheswm tebygol dros hyn. O ganlyniad i'r ansicrwydd hwn rhoddais farn amodol ar gyfrifon y ddau sefydliad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000. Rhoddodd y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol ac Archwilydd Cyffredinol yr Alban farn amodol debyg ar gyfer cyfrifon cenedlaethol Lloegr a'r Alban.

### *Awdurdod Datblygu Cymru*

2.17 Gosodwyd Cyfrifon Awdurdod Datblygu Cymru (yr Awdurdod) 1999-2000 ger bron y Cynulliad ar 10 Gorffennaf 2000. Yn fy adroddiad a gyhoeddwyd gyda'r cyfrifon hynny, darperais adroddiad ffeithiol ar etifeddiaeth y Cynulliad o asedion a rhwymedigaethau penodol a oedd yn perthyn i gyn Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (y Gorfforaeth). Adroddais hefyd am y caffaeliad gan Asiantaeth Hybu Bwyd Cymru Cyfyngedig.

2.18 Diddymwyd y Gorfforaeth yn ffurfiol ar 1 Gorffennaf 2000 ac roedd y mwyafrif o'i hasedion a'i rhwymedigaethau wedi cael eu trosglwyddo i gyrff olynol ar 31 Mawrth 2000. Ar y dyddiad hwnnw, caffaelodd yr Asiantaeth asedion datblygu a rhwymedigaethau'r Gorfforaeth ac yn ddiweddarach caffaelodd yr holl asedion a rhwymedigaethau gweddilliol ar 30 Mehefin cyn i'r Gorfforaeth gael ei diddymu. Roedd yr asedion datblygu yn cynnwys cam un o Gynllun Rhodfa Bute ar gost o £120 miliwn a fydd yn cysylltu canol Caerdydd a'r datblygiadau glan y dwr ym Mae Caerdydd.

2.19 Yn fy adroddiad soniais am symud y data cyfrifo cysylltiedig i gofnodion a llyfrau cyfrifo'r Asiantaeth a'i rheolaeth o'r portffolio eiddo a etifeddwyd. Cadarnhaf fy mod yn fodlon ar gyflawnder, cywirdeb a phrisiad yr asedion a'r rhwymedigaethau a gaffaelwyd ac ar y ffordd y cawsant eu trin yng nghyfrifon 1999-2000 yr Asiantaeth.

2.20 Caffaelodd yr Asiantaeth Hybu Bwyd Cymru Cyfyngedig ar 1 Hydref 1998 ac yn dilyn hynny prynwyd asedion a rhwymedigaethau'r cwmni hwnnw yn fewnol ar 1 Ebrill 1999. Yn fy adroddiad cadarnheais fy mod yn fodlon ar y ffordd y cafodd y wybodaeth ei throsglwyddo i gofnodion cyfrifo'r Asiantaeth a'r ffordd y cafodd y balansau a drosglwyddwyd yng nghyfrifon yr Asiantaeth ar gyfer 1999-2000 eu trin a'u rheoli o safbwynt cyfrifo. Soniais hefyd am gyfrifon archwiliedig y cwmni ar gyfer 1999-2000 a gofnododd dim incwm a gwariant am y flwyddyn a mantolen o ddim ar 31 Mawrth 2000, a bwriadau'r Asiantaeth i ddirwyn y cwmni i ben yn ystod 2000-01.

### Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru)

2.21 Yr wyf wedi gwneud gwaith archwilio helaeth ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Yn yr adran hon o'r adroddiad, crynhoaf ganlyniadau'r gwaith archwilio ariannol a gwerth am arian a gyflawnais yn y maes pwysig hwn o wariant y Cynulliad.

#### *Strwythur y GIG yng Nghymru*

2.22 Ar 3 Rhagfyr 1998, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd yn y Senedd ei benderfyniad i ail-lunio ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, a wnaethpwyd ar ôl diddymu'r pedair ymddiriedolaeth ambiwlans er mwyn ffurfio Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gostyngodd nifer yr ymddiriedolaethau o 26 i 16 erbyn Ebrill 1999. Gostyngodd hyn i 15 o ymddiriedolaethau ar 1 Ebrill 2000 pan unodd Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Llandochau ag Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg.

2.23 Ar 1 Gorffennaf, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ymgymerodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru â chyfrifoldebau Ysgrifennydd Gwladol Cymru dros y GIG a thros iechyd pobl yng Nghymru. Caiff swyddogaethau gweinyddol eu hymarfer drwy'r pum awdurdod iechyd, sy'n gyfrifol am brynu gwasanaethau iechyd ar gyfer eu trigolion lleol oddi wrth ymddiriedolaethau'r GIG. Ym mis Chwefror 2001 cyhoeddodd Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Gynllun y GIG ar gyfer Cymru. O dan y Cynllun hwn, diddymir y pum awdurdod iechyd erbyn Mawrth 2003.

#### *Trefniadau archwilio*

2.24 Mae Adran 98 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o sefydliadau'r GIG yng Nghymru baratoi cyfrifon blynyddol a'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Archwilir y cyfrifon hyn gan benodedigion y Comisiwn Archwilio.

2.25 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am baratoi cyfrifon cryno o awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG, ynghyd ag adroddiad cryno o'r cronfeydd elusennol a ddelir ar ymddiriedolaeth gan gyrff y GIG yng Nghymru. O dan Adran 98(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, mae'n ofynnol i mi archwilio, tystio a chyflwyno adroddiad ar gyfrifon cryno'r GIG. Cyfrifon cryno 1999-2000 yw'r rhai cyntaf a archwiliais fel Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mewn blynyddoedd blaenorol, archwiliwyd y cyfrifon hyn gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

2.26 Ymgymerodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru â'r dasg hon ar fy rhan drwy arolygu'r gwaith archwilio ar gyfrifon cyrff unigol y GIG a gyflawnwyd gan archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio. Bu'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, y Cynulliad, y Comisiwn Archwilio a'r GIG yn un gynhyrchiol iawn ac rwy'n gobeithio y gallaf ei datblygu ymhellach ymhen amser.

### Adroddiadau archwilio

2.27 Cyflwynaf adroddiad blynyddol ar gyfrifon cryno'r GIG i'r Cynulliad Cenedlaethol. Ymhob adroddiad, egluraf sail fy marn archwilio, gan gynnwys fy ystyriaeth o waith y Comisiwn Archwilio a'i archwilwyr penodedig. Ymdriniaf hefyd â'r materion allweddol sy'n effeithio ar reolaeth ariannol o fewn y GIG yng Nghymru, gan ganolbwyntio yn arbennig ar berfformiad cyffredinol. Mae Ffigur 2 yn rhestru sawl un o'r themâu cyffredinol pwysig y soniais amdanynt mewn adroddiadau i'r Seneddmewn perthynas â chyfrifon cryno o 1996-97 i 1998-99. Cyhoeddir f'adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r Cyfrifon Cryno ar gyfer 1999-2000 yn y dyfodol agos.

### Archwiliad gwerth am arian

2.28 Ymgymerir â gwaith archwilio gwerth am arian ar y GIG yng Nghymru gan y Comisiwn Archwilio ac, ar fy rhan, gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

### Gwaith y Comisiwn Archwilio

2.29 Un o bedair prif swyddogaeth y Comisiwn Archwilio yw cynnal astudiaethau cenedlaethol y bwriedir iddynt hyrwyddo economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau awdurdod lleol a gwasanaethau'r GIG. Mae adroddiadau diweddar y Comisiwn ar y GIG yn cynnwys Fully Equipped: The provision of equipment to older or disabled people by the NHS and social services in England and Wales a Testing times: a review of diabetes services in England and Wales.

### Gwaith Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

2.30 Dros y misoedd diwethaf cwblheais a chyflwynais fy nau adroddiad cyntaf gwerth am arian ar y GIG yng Nghymru ger bron y Cynulliad Cenedlaethol:

*Cael yr Incwm Gorau o Daliadau Presgripsiwn (Tachwedd 2000)*

Amcangyfrifodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y gallai tua £15 miliwn fod yn cael ei golli i'r GIG bob blwyddyn o ganlyniad i ganiatáu eithriad rhag taliadau presgripsiwn i unigolion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer eithriad. Yr wyf yn trafod ffyrdd o leihau maint y golled hon gyda swyddogion y Cynulliad. Yn ddiweddar derbyniodd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad dystiolaeth ar y mater hwn.

*Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru (Chwefror 2001)*

Archwiliodd yr adroddiad hwn effeithiolrwydd y GIG yng Nghymru wrth drin ceisiadau am esgeulustod clinigol. Canfu Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod diffyg gwybodaeth rheoli gyffredinol o ran ceisiadau am esgeulustod clinigol a digwyddiadau anffafriol a allai o bosibl arwain at geisiadau o'r fath. Er bod mesurau wedi cael eu cymryd i wella'r modd y rheolir risg yn y GIG yng Nghymru, mae angen gwneud mwy i sicrhau y cedwir digwyddiadau anffafriol i'r isafswm ac y gellir dysgu gwersi o geisiadau a gafodd eu datrys.

**Ffigur 2**

**Materion pwysig y GIG**

- Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'r GIG ar flaen y gad o ran rheolaeth gorfforaethol ar draws y sector cyhoeddus. Ers 1997-98, bu'n ofynnol i bob un o sefydliadau'r GIG gynnwys yn eu cyfrifon blynyddol ddatganiad o reolaeth ariannol fewnol.
- Yn ystod 1998-99, gweithredwyd dwy Safon Cofnodi Ariannol ( SCA ) newydd ar draws y GIG yng Nghymru. Yr oedd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG newid y ffordd y cofnodir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau, gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer ceisiadau esgeulustod clinigol dyledus (SCA 12), a hefyd sail prisio ystad y GIG (SCA 1). Roedd effaith y newid diwethaf hwn yn sylweddol, ac arweiniodd at daliad diffyg unigol eithriadol o fewn cyfrifon cryno 1998-99.
- Paratowyd cyfrifon cryno'r GIG yng Nghymru drwy gyfuno yn hytrach nag agregu fel y gwnaed yn y blynyddoedd blaenorol, yn unol â chyflwyno cyfrifo adnoddau i lywodraeth ganolog. Bydd hyn yn galluogi'r cyfrifon cryno i gyflwyno darlun cliriach o gyflwr cyffredinol materion y GIG yng Nghymru.
- Mae gwaith ar ganfod ac atal twyll yn y GIG yn mynd rhagddo mewn tri maes:
  - Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, y Comisiwn Archwilio ac archwilwyr penodedig i fynd i'r afael â thwyll posibl drwy gyfweliadau rheolaidd, ymchwiliadau ac argymhellion pell-gyrhaeddol;
  - Mae'r Cynulliad wedi datblygu trefniadau gwaith ar y cyd â'r Corff Gwasanaethau Gwrth Dwyll yn Lloegr, mae wrthi'n sefydlu tîm Gwasanaethau Gweithredol Gwrth-dwyll yng Nghymru; ac mae wedi cyflwyno deddfwriaeth i atal twyll.
  - Mae awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG wedi llunio strategaethau twyll ac wedi gweithredu gweithdrefnau lleol i ganfod twyll.

2.31 Yn ddiweddarach yn 2001, bwriadaf gyhoeddi canlyniadau'r astudiaethau ar Reoli Ystad y GIG ac ar Addysgu a Hyfforddi Gweithlu Proffesiynol Iechyd y Dyfodol. Mae fy rhaglen gwerth am arian ar gyfer 2001-02 hefyd yn cynnwys archwilio'r gwasanaethau arlwyo a glanhau o fewn GIG Cymru. Newydd ddechrau y mae'r gwaith ar y ddau destun hwn.

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn amlinellu'r gwasanaethau archwilio eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i gleientiaid sy'n deillio o'i gwaith statudol ac anstatudol. Rhoddir dadansoddiad o'r adroddiadau a wneir i reolwyr gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar faterion rheolaeth ariannol a nodwyd yn ystod eu gwaith archwilio ym 1999-2000.

### Ychwanegu gwerth - gwasanaethau i gleientiaid

3.2 Yn y paragraffau canlynol, crynhoaf y materion a godwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gydag uwch reolwyr pob corff cleient archwiliedig, a nodwyd yn ystod ei harchwiliad o ddatganiadau ariannol 1999-2000. Er bod safonau rheolaethau ariannol mewn cyrff cleientiaid archwiliedig ledled Cymru, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn dda, roedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gallu gwneud nifer o argymhellion i reolwyr ar gyfer gwelliannau i'r amgylcheddau rheoli, y prosesau cyfrifo a diogelwch asedion.

### Arolygon sicrwydd ychwanegol

3.3 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru gyfres o arolygon "sicrwydd ychwanegol", ar gais y Cynulliad, i archwilio agweddau penodol ar weithrediadau o fewn Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a allai effeithio ar weinyddiaeth ariannol y sefydliadau hynny. Bwriad y gwaith hwn oedd rhoi sicrwydd i reolwyr y cyrff archwiliedig a'r Cynulliad yn ychwanegol at y sicrwydd a gafwyd o archwiliad allanol safonol y cyfrifon. Gall y gwaith hwn ychwanegu gwerth hefyd drwy argymell gwelliannau i systemau a gweithdrefnau.

3.4 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yr archwiliadau hyn ar gyfer 12 o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Cafodd union gwmpas y gwaith hwn, mewn termau cyffredinol rhwng y Cynulliad a phob corff archwiliedig, ei deilwra i'r corff cleient unigol. Mae Ffigur 3 yn rhestru'r materion a gwmpesir yn gyffredinol gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fel rhan o'i harolygon.

3.5 Daeth Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i'r casgliad fod yr amgylchedd rheoli ariannol ymhob corff ar y cyfan yn foddhaol, a bod y camau priodol wedi eu cymryd mewn perthynas â'r holl bwyntiau allweddol a ddygwyd ymlaen o arolygon y flwyddyn gynt. Fodd bynnag, datgelodd yr arolygon enghreifftiau achlysurol o anghydffurfio â gofynion y Memoranda Ariannol a gyhoeddir gan y Cynulliad i'w gyrff noddedig. Ymhlith y rhain roedd methiant i geisio cymeradwyaeth y Cynulliad ar gyfer tendrau cyfyngedig gyda gwerth contract o fwy na £50,000, diffyg cydymffurfio â chyfarwyddiadau talu'n brydlon y Cynulliad, diffyg cofrestrau lletygarwch a rhoddion ffurfiol a methiant i gadw'r arian a gynigiwyd gan y Cynulliad o fewn ei derfynau penodedig. Derbyniodd y cyrff dan sylw fy nghanfyddiadau gan gytuno i gymryd camau i unioni hyn yn 2000-01.

3.6 Yn ogystal â chydymffurfio â'r Memoranda Ariannol, un maes allweddol o'r arolygon oedd sicrhau bod y cyrff noddedig yn cydymffurfio â therfynau Cymorth Gwladol yr Undeb Ewropeaidd (cymorth cyhoeddus a ddarperir i fusnesau preifat). Mae'r terfynau hyn yn mynd yn gynyddol arwyddocaol ac yn denu proffil uchel oherwydd eu sensitifrwydd, lefel gynyddol y nawdd Ewropeaidd a ddarperir i Gymru, a chreu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (gweler Rhan 7).

**Ffigur 3**

**Materion yr ymdrinnir â hwy mewn arolwg sicrwydd ychwanegol nodweddiadol**

Ymhlith y rhain mae gwiriadau profion y bwriedir iddynt nodi:

- A weithredodd y systemau rheoli yn effeithiol yn ystod y cyfnod cyfrifo;
- A oedd gan y sefydliad drefniadau archwilio mewnol effeithiol yn eu lle;
- A gydymffurfiodd y sefydliad â'r Memorandwm Ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo;
- A gydymffurfiodd y sefydliad â gofynion Cymorth Gwladol yr Undeb Ewropeaidd;
- A weithredodd rheolwyr ar faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol, os oedd hynny'n briodol;
- A ddyfarnwyd grantiau yn unol â phenderfyniadau priodol;
- A fu unrhyw achlysuron pan na chyrhaeddodd yr aelodau neu'r staff y safonau uchel o integredd ariannol yr oedd disgwyl i'r rheini a oedd yn gyfrifol am reoli arian cyhoeddus eu cyrraedd;
- A fu unrhyw orwariant neu wariant gwastraffus yn ystod y cyfnod;
- A oedd y gweithdrefnau tendro a gweithdrefnau eraill yn unol ag arfer gorau yn y sector cyhoeddus;
- A restrwyd yr holl dderbyniadau priodol i'r Cynulliad yn gywir a phrydlon (gan gwmpasu materion fel colledion, gwarediadau sylweddol o asedion a chontractau tendro unigol).

3.7 Yn ystod fy archwiliadau 1999-2000, yr oeddwn yn falch o nodi'r cyswllt a'r ymgynghori agos rhwng cyrff noddedig, y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd ynghylch datblygiadau Cymorth Gwladol a'u perthnasedd i'r ffurfiau niferus ar gymorth grant. Yr oeddwn yn falch o nodi hefyd y gwelliannau cyffredinol a wnaed gan gyrff i'w gweithdrefnau ynghylch asesu goblygiadau Cymorth Gwladol cyn dyfarnu cymorth grant i'r sector preifat. Yn ystod 2000-01 byddaf yn parhau i fonitro datblygiadau'r Cymorth Gwladol yn agos a'r ffordd y cânt eu cymhwyso gan y Cynulliad a, lle bo hynny'n berthnasol, gan ei gyrff noddedig.

## Adroddiadau i reolwyr

3.8 Wrth gynnal archwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i archwilwyr allanol archwilio systemau cyfrifo a rheoli mewnol er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol i ategu barn archwilio gyffredinol ar y cyfrifon hynny. Pan nodant wendidau yng nghynllun neu weithrediad y systemau hynny, neu gamau posibl y gallai'r cleient eu cymryd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd eu gweithrediadau, bydd yr archwilwyr yn cynnig cyngor priodol, adeiladol. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn sefyllfa unigryw, gan ddarparu persbectif allanol i'w cleientiaid a gaiff eu harchwilio ar risgiau a rheolaethau yn seiliedig ar ei gwybodaeth o arfer gorau ledled y sector cyhoeddus yn y DU.


3.9 Ar lafar y rhoddir cyngor yn ystod yr archwiliadau, ond codir y materion mwy arwyddocaol yn ffurfiol ar ddiwedd yr archwiliad. Anfonir llythyr at uwch reolwyr y cleient, ac mae'n rhaid iddynt ddarparu ateb ynghyd ag amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion cytûn fel y gellir monitro cynnydd. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn cydnabod yr angen am reolaethau i weithredu'n gost-effeithiol, ac mae'n anelu at gynhyrchu argymhellion ymarferol sy'n helpu cleientiaid i weithredu eu busnesau yn effeithlon ac effeithiol heb fiwrocratiaeth ddiangen.

3.10 Mae Ffigur 4 yn dadansoddi fesul categori arsylwi cyffredinol yr argymhellion a wnaed i reolwyr y cyrff cleientiaid archwiliedig yng Nghymru ar gyfer 1999-2000. Derbyniodd rheolwyr y cyrff cleientiaid archwiliedig dros 95% o'r argymhellion a wnaed.

3.11 Dengys y siart, o'r materion llythyrau rheoli a godwyd gyda chleientiaid ym 1999-2000, deliodd bron 50% â materion sy'n ymwneud â'r systemau rheolaeth fewnol gyda thua 27% yn ymwneud â thriniaeth gyfrifo gweithgareddau sefydliad yn eu cyfrifon diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, er bod y rhaniadau canrannol hyn yn adlewyrchu'n agos yr argymhellion a wnaed hefyd ym 1998-99, mae'r argymhellion yn gynyddol wedi canolbwyntio ar edrych ymlaen, gan anelu at argymhellion adeiladol i wella arferion rheoli a rheolaethau ynghylch gweithrediadau cleientiaid allweddol. Mae adran nesaf yr adroddiad yn sôn am rai o'r themâu allweddol sy'n deillio o bob categori pwyntiau llythyrau rheoli.

**Ffigur 4**

**Siart gylch yn dangos y rhaniad canrannol yn ôl y math o bwyntiau llythyrau rheoli a godwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

### Materion rheolaeth ariannol

3.12 Cwmpasodd yr arsylwadau a wnaed gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru o dan y categori cyffredinol hwn nifer o argymhellion lle roedd naill ai'r rheolaethau neu'r systemau a oedd yn eu lle yn annigonol neu lle roedd rheolaethau o'r fath yn bodoli ond heb eu cymhwyso'n gywir. Roeddent yn cynnwys argymhellion ar yr angen i ymgymryd â gwiriadau rheoli a dangos tystiolaeth ohonynt mewn perthynas â ffrydiau trafodion allweddol fel prosesu anfonebau prynu a gwerthu, cryfhau'r gwaith o fonitro cynlluniau grant, gwella rheolaethau diogelu mynediad i gronfeydd data electronig a systemau ariannol a rhoi rheolaethau prosesu mwy effeithiol yn eu lle dros feysydd pwysig fel talu treuliau teithio. Mewn un achos, adroddais hefyd am y methiant i brofi a gweithredu systemau ariannol newydd yn llawn cyn dileu hen systemau. Arweiniodd hyn at roi gweithdrefnau â llaw ar waith dros dro, a chafodd hyn effaith andwyol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli.

### Triniaeth gyfrifo

3.13 Yn aml, codir argymhellion ynghylch triniaeth gyfrifo ar lafar gyda'r cleient, yn arbennig pan fydd yr argymhelliad ond yn berthnasol i'r archwiliad presennol. Fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn codi pwyntiau yn ysgrifenedig hefyd i gynorthwyo cleientiaid wrth iddynt baratoi'r datganiadau ariannol yn y blynyddoedd i ddod, naill ai drwy argymell gweithdrefnau priodol iddynt eu mabwysiadu neu drwy nodi triniaeth briodol ar gyfer mathau penodol o drafodion. Bydd y rhain, yn eu tro, yn helpu i sicrhau effeithlonrwydd yn y broses archwilio yn y blynyddoedd i ddod.

3.14 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y materion a godwyd yn cynnwys nifer yn ymwneud â pharatoi'r datganiadau ariannol, argymell gwiriadau rheoli mwy llym o'r datganiadau ariannol drafft am gywirdeb, cysondeb a rhesymoldeb cyn eu cyflwyno i'r archwilwyr. Nodaf fod nifer o sefydliadau wedi gwella eu gweithdrefnau o ganlyniad i argymhellion blaenorol ond mae rheolwyr eraill yn parhau i ddibynnu ar y broses archwilio allanol fel dull amgen ar gyfer gwiriadau mewnol digonol, ac felly methant â chymryd digon o gyfrifoldeb dros eu datganiadau ariannol eu hunain. Dylai gwiriadau o'r fath gynnwys rhai ar gysondeb mewnol y wybodaeth a gyflwynir yn y cyfrifon a gwirio bod y sefyllfa yr adroddir amdani yn rhesymol yng nghyd-destun gweithgareddau'r sefydliad. Daw buddiannau'r gwiriadau hyn yn amlwg mewn proses archwilio llyfnach a chyflymach, a thrwy wella defnyddioldeb y datganiadau ariannol i reolwyr wrth redeg eu busnesau.

3.15 Gellir gwneud y gwaith o baratoi'r cyfrifon a'r broses archwilio yn fwy effeithlon ac effeithiol drwy gael yr archwilwyr i gytuno â'r rheolwyr ar raglenni cyswllt cleientiaid manwl, sy'n nodi'r amserlen ar gyfer paratoi'r cyfrifon a'r papurau gwaith i'w darparu i ategu'r datganiadau ariannol. Gall cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng rheolwyr y cyrff archwiliedig a'r archwilwyr helpu i weithredu gofynion cyfrifo newydd, a chaniatáu trafodaeth am faterion gweithredol sy'n dod i'r golwg a allai effeithio ar y prosesau cyfrifo ac archwilio. Mae cytuno ar raglenni o'r fath yn ffactor pwysig hefyd wrth i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru reoli ei phortffolio o archwiliadau ariannol yn effeithiol, ac mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau archwilio prysur. Mae mwyafrif y cyrff a archwiliaf ar hyn o bryd yn elwa ar ymagwedd o'r fath, er bod angen mwy o ddisgyblaeth ar adegau ar y cyrff hynny wrth gadw at yr amserlenni a bennwyd ar gyfer cynhyrchu cyfrifon a phapurau ategol.

### Diogelu asedion

3.16 Diogelu asedion endid yw un o gyfrifoldebau pennaf y Swyddog Cyfrifo. Cododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru sawl mater o ran trin asedion mewn perthynas â'u gwaith ym 1999-2000. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn ymwneud â diogelu stoc a balansau arian parod a chasglu arian a oedd yn ddyledus ar gyfer nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd. Mae sicrhau asedion mewn ffordd gadarn, fel eitemau stoc a balansau arian parod, yn holl bwysig a dylai pob sefydliad sicrhau bod gweithdrefnau boddhaol yn eu lle i leihau'r risg o golled neu ladrad. Yn yr un modd, dylai sefydliadau sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle ynghylch casglu balansau dyledion sy'n ddyledus. Dylai'r rhain gynnwys terfyn amser cytûn ar gyfer talu'r ddyled a gweithrediadau penodedig clir ar gyfer casglu'r diffyg taliad parhaus. Os defnyddiwyd pob opsiwn, dylid cyfiawnhau, dogfennu ac awdurdodi'r ddyled i'w dileu sy'n ddyledus ar y lefel briodol, cyn cymryd camau i ddileu'r ddyled.

### Rheoleidd-dra

3.17 Mewn dau achos, nododd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru eitemau gwariant yn ystod 1999-2000 y dylid bod wedi eu cyfeirio at yr hen Swyddfa Gymreig/Cynulliad am gymeradwyaeth ymlaen llaw cyn eu talu. Roedd yr enghreifftiau hyn o ddiffyg cydymffurfio yn ymwneud â dyfarnu contractau cyfyngedig. O ganlyniad i'r archwiliad, mewn un achos ceisiodd a chafodd y corff archwiliedig gymeradwyaeth ôl-weithredol o'r Cynulliad ac yn yr achos arall gofynnodd y corff am eglurhad ynglŷn â'r gweithgareddau perthnasol. Yn y ddwy enghraifft, nid oedd y symiau dan sylw yn berthnasol o ran eu gwerth na'u natur ac felly nid oeddent yn effeithio ar fy marn ar ddatganiadau ariannol 1999-2000 y cleientiaid.

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r bennod hon yn nodi:

- Y cefndir i'r newid o gyfrifo arian parod i gyfrifo adnoddau ar draws llywodraeth ganolog (paragraff 4.2);
- Effaith Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 ar yr amserlen cyfrifo (paragraff 4.3);
- Datblygiadau yn y dyfodol y tu hwnt i flwyddyn gyfrif 1999-2000 (paragraff 4.6).

### Gweithredu cyfrifo adnoddau

4.2 O dan fenter Cyfrifo Adnoddau a Chyllidebu'r Trysorlys, roedd yn ofynnol i bob adran o'r llywodraeth baratoi eu cyfrifon ar sail croniadau yn hytrach nag 'adnoddau' (yn hytrach nag ar sail arian parod) o flwyddyn ariannol 1999-2000. Cyfarwyddodd y Trysorlys, gan weithredu yn unol ag Adran 97 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, y Cynulliad Cenedlaethol i gynhyrchu cyfrif ar sail adnoddau o'r cychwyn cyntaf.

4.3 O dan delerau Deddf 1998, roedd disgwyl i gyfrifon adnoddau wedi eu llofnodi gael eu darparu i mi erbyn 31 Gorffennaf fan pellaf yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y cyfeiriant ati. Fodd bynnag, ymestynnwyd y terfyn amser hwn gan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 i 30 Tachwedd yn unol â'r amserlen bresennol ar gyfer adrannau llywodraeth y DU.

### Cyfrifon adnoddau a baratowyd gan y Cynulliad ar gyfer 1999-2000

4.4 Caniataodd y Trysorlys eithriadau cyfrifo a datgelu penodol i'r Cynulliad mewn perthynas â'u cyfrifon adnoddau ym 1999-2000. Ymhlith yr eithriadau hyn roedd:

- cyfuno cyfrifon y Cynulliad â rhai Cadw a'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru;
- cynhyrchu 'Datganiad o Ganlyniad mewn perthynas ag Adnoddau';
- cynhyrchu 'Datganiad o Adnoddau yn ôl Nod ac Amcanion y Cynulliad'.

Eithriodd y Trysorlys rhag cyfuno cyfrifon penodol oherwydd anawsterau cyfrifo a achoswyd o ganlyniad i drosglwyddo swyddogaethau rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol. Ni fydd y sefyllfa hon yn berthnasol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Trysorlys wedi nodi hefyd y dylai'r Cynulliad gynhyrchu mantolen agoriadol gyfunol ar 1 Ebrill 2000 i'w chynnwys yng nghyfrifon 2000-01.

4.5 Caniatawyd eithriad y Trysorlys rhag cynhyrchu 'Datganiad o Ganlyniad mewn perthynas ag Adnoddau' a 'Datganiad o Adnoddau yn ôl Nod ac Amcanion y Cynulliad' oherwydd natur drosiannol 1999-2000 ar gyfer y Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad ac o ganlyniad diffyg unrhyw wybodaeth ystyrlon i ddarllenwyr y cyfrifon pe bai'r datganiadau yn cael cynnwys. Bydd dileu'r eithriadau hyn ar gyfer 2000-01 yn creu heriau ychwanegol i'r Cynulliad. Byddaf yn gweithio'n agos gyda swyddogion i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i weithredu'r gofynion cyfrifo estynedig.

## Datblygiadau yn y dyfodol

4.6 Mae nifer o ddatblygiadau allweddol yn wynebu'r Cynulliad o 2000-01 ymlaen. Ymhlith y rhain mae gofyniad y Trysorlys i gynhyrchu cyfrifon cyfunol, ar sail ychwanegol, o 2000-01 a fydd yn y pen draw yn arwain at gynhyrchu a chyhoeddi Cyfrifon Llywodraeth Cymru Gyfan. Bydd y broses hon yn dechrau pan gyfunir yr awdurdodau iechyd, Cadw a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn 2000-01 ac yn datblygu yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys yn y dyfodol i gynnwys yn y pen draw bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau lleol.

4.7 O ganlyniad i'r cynlluniau hyn, cyhoeddodd y Trysorlys arweiniad a fydd yn berthnasol i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o 2001-02. Bydd yr arweiniad hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'w hegwyddorion cyfrifo gael eu cysoni â'r rheini a grybwyllir yn 'Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau' presennol y Trysorlys. Mae alinio egwyddorion cyfrifo rhwng cyrff cyhoeddus yn elfen bwysig wrth gydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, rhywbeth sy'n hanfodol wrth baratoi cyfrifon cyfunol. Felly, fel rhan o'm harchwiliadau ym 2000-01, byddaf yn arolygu'r cynnydd a wneir gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad wrth symud tuag at gydymffurfio ag arweiniad diweddaraf y Trysorlys.

4.8 Un datblygiad pellach fydd cyflwyno cyllidebu adnoddau gan y Cynulliad. Daw hyn â'r broses gofnodi a chyllidebu ynghyd ar sail croniadau gan alluogi cymariaethau ystyrlon rhwng canlyniad ariannol ac amcangyfrifon ar sail croniadau. O dan gyfarwyddyd y Trysorlys, mae adrannau'r llywodraeth ledled y Deyrnas Unedig yn ymrwymedig i gyflwyno cyllidebu adnoddau o 1 Ebrill 2001. Fodd bynnag, mae Cabinet y Cynulliad, o dan ei bwerau statudol datganoledig, wedi penderfynu oedi cyn cyflwyno cyllidebu ar sail adnoddau am o leiaf ddeuddeg mis ac yn ystyried ei gyflwyno ar gyfer 2002-03 ymlaen. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd ar y fenter bwysig hon.

## Cyflwyniad

5.1 Disgwylir i gysyniad trefniadau rheolaeth gorfforaethol cadarn ddod yn eitem reolaidd ar yr agenda i gyrff cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd nesaf. Noda'r adran hon ddatblygiad rheolaeth gorfforaethol, gyda phwyslais arbennig ar ei chymhwyso o fewn y sector cyhoeddus, ac asesu'r camau a gymerwyd hyd yn hyn a'r gwaith sydd eto i'w wneud.

## Datblygu rheolaeth gorfforaethol

### Diffiniad

5.2 Diffinnir rheolaeth gorfforaethol fel y system i gyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae aelodau'r bwrdd ac uwch reolwyr yn gyfrifol am rheoli eu sefydliadau. Mae'r cyfrifoldebau hynny yn cynnwys pennu nodau strategol, darparu'r arweinyddiaeth i'w gweithredu, goruchwylio'r modd y rheolir y busnes a chyflwyno adroddiadau i'r cyfranddeiliaid ar eu stiwardiaeth.

### Pwyllgor Cadbury - Rheolaeth Gorfforaethol

5.3 Cyhoeddodd Pwyllgor Cadbury adroddiad ym 1992 yn dadansoddi'r agweddau ariannol ar reolaeth gorfforaethol, gan wneud argymhellion ar gyfer cwmnïau yn y sector cyhoeddus o ran rôl aelodau'r Bwrdd a sefydlu pwyllgorau archwilio.

5.4 Yn dilyn hyn, cyhoeddodd y Trysorlys eu "Cod Ymarfer Gorau ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus" eu hunain ym Mehefin 1994. Cynlluniwyd y cod fel model ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Anadrannol gweithredol a sefydliadau tebyg. Nododd rolau a chyfrifoldebau Aelodau Byrddau a rhoddodd arweiniad ar sefydlu pwyllgorau archwilio o fewn y sector cyhoeddus.

### Pwyllgor Nolan - Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

5.5 Ystyriodd Pwyllgor Nolan ar 'Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus' fater rheolaeth gorfforaethol hefyd. Cyhoeddodd y Pwyllgor bapur ymgynghorol ar 'Spending Public Money: Government and Audit Issues' ym mis Mawrth 1996. O ganlyniad, cyhoeddodd y Trysorlys arweiniad newydd, gan gynnwys diweddariad i'r llawlyfr 'Government Accounting'.

### Gweithgor Rutteman - Datgeliadau mewn Datganiadau Ariannol

5.6 Datblygodd Gweithgor Rutteman adroddiad Cadbury, gan gynnig y dylai sefydliadau ddatgelu gwybodaeth am eu systemau rheolaeth ariannol fewnol yn eu datganiadau ariannol. Cafodd datgeliadau o'r fath eu cynnwys yng nghyfrifon cyrff cyhoeddus llywodraeth ganolog o 1 Ebrill 1998.

### Pwyllgor Turnbull

5.7 Sefydlwyd gweithgor gan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr, o dan gadeiryddiaeth Nigel Turnbull, i ddatblygu egwyddorion rheolaeth gorfforaethol effeithiol. Cyflwynodd Pwyllgor Turnbull adroddiad ym mis Ebrill 1999, yn cynnig y dylid ehangu cwmpas y datganiad presennol o Reolaeth Ariannol Fewnol i ymgorffori pob system rheolaeth fewnol gan ddod â'r rheolaethau dros feysydd fel systemau gweithredol a systemau gwneud polisi o fewn cwmpas y datganiad.

5.8 Daeth adroddiad Turnbull i'r casgliad fod system gadarn o reolaeth fewnol yn dibynnu ar werthuso natur a graddau'r holl risgiau allweddol yr amlygir sefydliad iddynt mewn ffordd drylwyr a rheolaidd. Nododd hefyd mai pwrpas rheolaeth fewnol oedd rheoli risg o'r fath yn hytrach na'i dileu. Dehonglwyd y risg hon mewn modd cyffredinol gan y Pwyllgor, ac yn ogystal â bod yn risg ariannol, roedd yn cynnwys meysydd fel risg gyfreithiol, corfforol, iechyd a diogelwch, risg weithredol ac ymwneud â'r cyhoedd.

5.9 Bydd y datblygiad pwysig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i uwch reolwyr nodi mewn ffordd agored, asesu a rheoli risgiau sylweddol i'w busnesau. O'r tair proses hon, nodi'r risg fydd yr un fwyaf heriol, yn arbennig gan na chrybwyllodd adroddiad Pwyllgor Turnbull pa un oedd y ffordd orau i sefydliad ddatblygu ei brosesau nodi ac asesu risgiau. Er mwyn gweithredu argymhellion Turnbull yn llwyddiannus, bydd angen i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus gynnwys pob un o'u huwch reolwyr o'r cychwyn cyntaf mewn ffordd weithredol. Bydd methu â gwneud hyn yn anochel yn arwain at ystyried y Datganiad o Reolaeth Fewnol fel gofyniad cofnodi ariannol arall yn unig nad yw'n berthnasol iawn i'r staff anariannol o fewn sefydliad. Mae angen ymdrin â'r modd y rheolir risg yn ofalus, gan ddirprwyo cyfrifoldeb dros risgiau unigol yn glir o fewn y strwythurau rheoli.

5.10 Mae arweiniad diweddaraf y Trysorlys (DAO 13/00) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y llywodraeth, gan gynnwys y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig, ddatgelu Datganiad o Reolaeth Fewnol yn eu datganiadau ariannol sy'n cwmpasu cyfnodau cyfrifo yn dechrau ar neu wedi 1 Ionawr 2003. Pennwyd yr amserlen fel bod yr holl waith datblygu a phob un o'r prosesau rheoli ac arolygu risgiau yn llwyr weithredol erbyn 1 Ebrill 2003 ac i weithredu arnynt erbyn y dyddiad hwn. Roedd pob Swyddog Cyfrifo yng Nghymru yn gallu darparu sicrwydd digonol yn eu Datganiadau o Reolaeth Ariannol Fewnol ar gyfer 1999-2000. Yn y datganiadau hynny cadarnhawyd eu hymwybyddiaeth o argymhellion Pwyllgor Turnbull a'u bod yn cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofynion y Trysorlys.

5.11 Yn y misoedd i ddod bwriadaf arolygu'r cynnydd a wnaed gan y Cynulliad a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru o ran rheolaeth gorfforaethol yn ofalus ac yn arbennig y datblygiad a wneir o ran polisïau a gweithdrefnau rheoli risg.

## Pwyllgorau archwilio

5.12 Mae pob corff a noddir gan y Cynulliad a sefydliadau eraill a archwiliaf ar hyn o bryd wedi sefydlu pwyllgorau archwilio erbyn hyn. Bellach mae rhai ohonynt yn hen sefydledig ac eraill yn gymharol newydd. Bydd gan y pwyllgorau hyn rôl bwysig wrth asesu'r modd y mae trefniadau rheolaeth gorfforaethol yn datblygu drwy ddarparu cyngor annibynnol a gwrthrychol i Swyddogion Cyfrifo.

5.13 Mae gan y Cynulliad Bwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol, wedi ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol, sydd ymhlith pethau eraill, yn goruchwylio materion rheolaeth gorfforaethol sy'n ymwneud â'i weithgareddau a'i swyddogaethau. Yn ystod 1999-2000, cymerodd y Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol ran weithredol wrth ddatblygu arolwg y Cynulliad o'i system rheolaeth ariannol fewnol. Roedd hyn yn cynnwys arolwg y Pwyllgor o'r sicrwydd ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Ysgrifennydd Parhaol gan y penaethiaid adrannau o fewn y Cynulliad, sef tua 50 o adrannau i gyd. Roedd yr adborth gan y penaethiaid adrannau hyn yn gyfle i swyddogion allweddol asesu digonolrwydd y gweithdrefnau a'r rheolaethau adrannol a oedd yn eu lle. Darparodd sylfaen dda i'r Cynulliad ddatblygu ei baratoadau ar gyfer gweithredu argymhellion Turnbull ymhellach.

5.14 Roedd adroddiadau'r penaethiaid adrannau yn dangos bod y systemau cyfredol o reolaeth ariannol yn gweithredu'n effeithiol gyda dim ond saith y cant o'r adroddiadau o'r rhaniadau unigol yn awgrymu meysydd lle roedd angen gwella neu ddatblygu. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys prosesau ar gyfer cofnodi gwrthdaro buddiannau, amseroldeb taliadau, rheoli cofnodion, cofnodi rhoddion ac achosion o letygarwch, hyfforddi staff, cofnodi a diogelu asedion bach swyddfa, a digonolrwydd cyfarwyddiadau desg.

## Datblygiadau yn y dyfodol

5.15 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio pob un o'r cyrff a archwiliaf i drafod y materion a'r canfyddiadau sy'n deillio o archwilio'r cyfrifon blynyddol. Caiff pob Pwyllgor Archwilio y cyfle i geisio gwybodaeth bellach gan reolwyr y corff archwiliedig a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, ac hefyd i fonitro y gwaith o weithredu'r argymhellion a wneir i wella'r amgylchedd rheoli.

5.16 O 2000-01 ymlaen bydd angen i'r pwyllgorau archwilio ymgymryd â rôl gynyddol weithredol i annog datblygiad y trefniadau rheolaeth gorfforaethol, allbwn a gweithrediadau. Yn arbennig, mae angen arolygu i ba raddau y ceir sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch gweithrediad effeithiol y systemau anariannol, ac i bennu a oes angen unrhyw weithdrefnau ychwanegol. Mae gan y Cynulliad rôl allweddol i'w chwarae wrth arwain ei gyrff cyhoeddus noddedig drwy broses datblygu argymhellion Turnbull.

## Cyflwyniad

6.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn dadansoddi rôl archwiliad mewnol ac yn crynhoi:

- Rôl a chyfrifoldebau'r archwilydd mewnol (paragraff 6.2);
- Y sicrwydd a roddir gan bennaeth perthnasol archwiliad mewnol ynghylch effeithiolrwydd y systemau rheoli i'r Swyddog Cyfrifo, a'r themâu allweddol sy'n amlwg o waith 1999-2000 (paragraff 6.6);
- Y berthynas sydd wedi datblygu rhwng archwilwyr allanol a mewnol, a'r ymdrechion i leihau'r baich archwilio cyffredinol drwy gydweithrediad a deialog (paragraff 6.9).

## Rôl yr archwilydd mewnol

6.2 Gwerthusiad annibynnol o fewn y sefydliad yw archwiliad mewnol, sy'n gweithredu fel gwasanaeth i reolwyr drwy fesur a gwerthuso effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, gan ddarparu cyngor a sicrwydd i reolwyr. Felly mae'n rhan allweddol o systemau rheolaeth ariannol o fewn pob sefydliad. I fod mor effeithiol â phosibl, dylai archwiliad mewnol fod yn annibynnol ar reolwyr mewn ffordd briodol, gyda'r Swyddog Cyfrifo a Phwyllgor Archwilio'r corff yn meddu ar hawliau cofnodi uniongyrchol, neu gyfatebol.

6.3 Mae'n holl bwysig bod gan bob sefydliad wasanaeth archwilio mewnol cadarn a phroffesiynol, sy'n darparu dadansoddiad trylwyr a chyngor i reolwyr yr endid. Mae'r gwasanaeth hwn yn elfen allweddol o'r sicrwydd a gaiff y Swyddog Cyfrifo ynghylch gweithredu systemau rheoli'r sefydliad yn effeithiol.


6.4 Mae'r broses archwilio mewnol yn cychwyn cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, pan fydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Asesiad Anghenion Archwilio, a dylai ddod i ben pan gyflwynir yr adroddiad archwilio mewnol blynyddol i'r Pwyllgor, cyn i'r Swyddog Cyfrifo lofnodi'r Datganiad o Reolaeth Ariannol Fewnol. Bydd adroddiad blynyddol yr archwiliad mewnol yn cynnig barn ar ddigonolrwydd prosesau rheolaeth fewnol y sefydliad; bydd angen iddo ystyried swyddogaeth gyfnewidiol gwaith rheoli risg o fewn rheolaeth fewnol a rheolaeth gorfforaethol.

## Darparwyr gwasanaethau archwiliad mewnol yng Nghymru

6.5 Mae gan sawl sefydliad ei swyddogaeth archwilio fewnol ei hunan, er bod cyfran uchel o'r 21 o gyrff a gwmpesir gan yr adroddiad yn rhoi'r gwaith ar gontract i'r cwmnïau cyfrifo ar gyfer y gwasanaeth hwn, ac nid yw'r rhan fwyaf o'r contractau yn para mwy na phum mlynedd. Yn ystod 1999-2000 rhoddodd pedwar corff o'r fath waith ar gontract i ddarparwyr newydd yn dilyn terfynu contractau presennol a phroses dendro gystadleuol. Yn ychwanegol, mae gwasanaeth archwilio mewnol y Cynulliad yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer Estyn, Cadw ac ers 2000-01 Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yr ymgymerir â'u swyddogaethau cyllid gan swyddogion y Cynulliad hefyd. Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol i Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru. Mae gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a Menter Coedwigaeth Cymru eu gwasanaeth archwilio mewnol eu hunain. Crynhoir y ddarpariaeth o wasanaethau archwilio mewnol yn Ffigur 5.

**Ffigur 5**

**Darparwyr gwasanaethau archwiliad mewnol**




*Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru*

## Sicrwydd a roddwyd gan archwilwyr mewnol ar gyfer 1999-2000

6.6 Roedd pennaeth perthnasol yr Archwiliad Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i bob Swyddog Cyfrifo ynghylch gweithrediad effeithiol systemau rheolaeth ariannol fewnol eu sefydliad ar gyfer y flwyddyn ariannol 1999-00. Serch hynny, cododd pob tîm archwilio mewnol nifer o faterion yn ymwneud â'r systemau a archwiliwyd.

6.7 Drwy gydol yr 'Asesiadau o Anghenion Archwilio' yr ymgymerwyd â hwy gan archwilwyr mewnol ac y cytunwyd arnynt gyda'r Pwyllgor Archwilio perthnasol, ceisia'r archwilwyr mewnol ymhob corff gwmpasu ystod o systemau craidd bob blwyddyn. Archwilir systemau allweddol eraill ar sail gylchol, a bennir drwy ddadansoddi'r risg o wallau, ac arwyddocâd tebygol eu heffaith, sydd yn gynhenid yn y systemau hynny. Arolygodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru y trefniadau archwilio mewnol mewn Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fel rhan o'r gwaith sicrwydd ychwanegol a wnaed ar gais y Cynulliad (paragraff 3.3). Daeth i'r casgliad fod cwmpas pob archwiliad mewnol a'r sylw a roddir iddynt ymhob un o'r cyrff a arolygwyd yn ddigonol.

6.8 Codwyd nifer o faterion gan yr archwilwyr mewnol ym 1999-00, ac yr oedd ganddynt lawer yn gyffredin â chanfyddiadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a nodwyd yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn:

- Roedd enghreifftiau lle roedd dull diogelu eitemau stoc neu arian parod yn annigonol. Gyda gweithgareddau rhai cyrff cyhoeddus yn golygu bod angen dal symiau sylweddol o stoc weithredol a/neu arian parod, mae sicrhau y diogelir asedion diriaethol o'r fath yn effeithiol yn holl bwysig;

- Bu rhai tor-reoliadau wrth gymhwyso trefniadau tendro penodedig. Gweithreda nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru mewn meysydd arbenigol iawn ac felly dim ond ar nifer gyfyngedig o gyflenwyr y gallant ddibynnu. Mae'n bwysig iawn mewn achosion o'r fath y cymhwysir rheolau tendro yn gyson ac yn briodol er mwyn sicrhau y ceir y gwerth gorau am arian; a

- Roedd peth tystiolaeth o rai sefydliadau yn methu â chynnal gwiriadau rheoli a/neu roi tystiolaeth ohonynt. Er enghraifft, mae talu cyflenwyr neu geisiadau am grant yn aml yn golygu bod angen i staff ategol wirio manylion y trafodion ac i reolwyr canol ac uwch reolwyr eu cymeradwyo. Mewn rhai achosion canfu'r archwiliad mewnol nad ymgymerwyd â gwiriadau o'r fath ac/neu na chafodd tystiolaeth ohonynt eu rhoi fel y bo'n briodol.

## Dibynnu ar archwiliad mewnol

6.9 Wrth gynnal ei harchwiliadau o gyfrifon 1999-2000, ystyriodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru waith archwiliad mewnol ac a oedd yn bosibl cael sicrwydd cost-effeithiol o'r gwaith hwnnw. Dim ond i'r swyddogaeth archwilio gyffredinol y gall dibyniaeth o'r fath ar waith archwiliad mewnol elwa, wedi ei hwyluso gan gyfarfodydd cyswllt rheolaidd, rhannu canfyddiadau a syniadau, a thrafodaethau ar y risgiau archwilio a'r rheolaethau lleddfu sydd yn eu lle. Mae cydweithio fel hyn hefyd, gydag amser, yn lleihau cost a baich y broses archwilio.

6.10 Nodir enghreifftiau o'r prif feysydd lle y bu'n bosibl i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ddibynnu ar archwiliad mewnol yn ystod 1999-2000 yn Ffigur 6. Cafwyd y ddibyniaeth hon ar ôl trafod cwmpas y gwaith gyda'r archwilwyr dan sylw ac arolygu'r canfyddiadau.

**Ffigur 6**

**Enghreifftiau o feysydd lle roedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gallu dibynnu i ryw raddau ar waith Archwiliad Mewnol, mewn perthynas â rhai o'r cyrff a archwiliwyd**

- Gwariant cyflogres, yn benodol y rheolaethau mewn personél ac arian i sicrhau y rhoddir taliadau cywir i'r cyflogeion cywir;
- Grantiau, gan gynnwys arolygon o'r gwaith cymeradwyo a monitro prosiectau;
- Gwariant nad yw'n gysylltiedig â'r gyflogres, gan gynnwys rheolaethau dros y gwaith o gymeradwyo a thalu anfonebau;
- Incwm rhenti, gan gynnwys arolygu systemau rheoli eiddo sydd newydd eu cyflwyno.

# RHAN 7 Edrych ymlaen

## Cyflwyniad

7.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, edrychaf y tu hwnt i flwyddyn ariannol 1999-2000 gan ystyried y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol, y newidiadau cyfansoddiadol a threfniannol o 1 Ebrill 2000, a'm nod parhaus o ddarparu gwasanaeth archwilio gwerthfawr i'r Cynulliad.

## Ymdrin â blaenoriaethau'r Cynulliad

7.2 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 19 Hydref 2000, cytunodd yr Aelodau i'm blaenamcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2001-02 gan gynnig eu barn ar fy rhaglen gwerth am arian. Newidiais gwmpas ac amseru'r gwaith fel y gellid ymgorffori astudiaethau penodol yn unol â chais y Pwyllgor. Er enghraifft, cytunais i gynnwys archwiliad o grantiau adnewyddu tai ac i gyflwyno'r astudiaeth arfaethedig ar agweddau ar Gymorth Dethol Rhanbarthol.

7.3 Ymdrechaf hefyd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y mentrau allweddol a'r dogfennau strategol a gynhyrchir gan y Cynulliad a'i gyrff noddedig. Yn y cyd-destun hwn, yr oeddwn yn falch o nodi ymrwymiad parhaus y Cynulliad i systemau a gweithdrefnau ariannol cadarn a doethineb yn eu cyhoeddiad 'www.gwellcymru.com - Cynllun Strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru', a gynhyrchwyd ym mis Mai 2000. Ymhlith yr ymrwymiadau hyn roedd y canlynol:

- 'arolygwyd pob agwedd arwyddocaol ar ein cyllideb i sicrhau y defnyddir adnoddau yn ddoeth ac yn y meysydd cywir, dros y pum mlynedd nesaf;
- 'cyflawni gwell gwerth am arian o'n hasedion cyfalaf drwy sicrhau bod gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru Gynlluniau Rheoli Asedion yn eu lle erbyn Ebrill 2002;
- 'cyflawni arbedion o 5% o leiaf (tua £80 miliwn ar brisiau heddiw) i'w sicrhau drwy gytuno ar yr arfer diweddaraf a meincnodi caffaeliad ar draws y sector cyhoeddus yn gyffredinol yng Nghymru;
- 'llenwi unrhyw fylchau pwysig yn y wybodaeth sydd ei hangen i lywio polisi caffaeliad a phennu targedau cadarn.'

Mae gweithredu a datblygu gwaith cyfrifo a chyllidebu adnoddau yn llwyddiannus a threfniadau rheolaeth gorfforaethol priodol yn holl bwysig i'r cynulliad wrth gyflawni'r nodau hyn. Bydd angen i swyddogion y Cynulliad ganolbwyntio adnoddau digonol ar y mentrau hyn er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r targedau hyn a bennwyd.

## Newid cyfansoddiadol a threfniadol ers 1 Ebrill 2000

7.4 Yn ystod 2000-01 llwyddodd y Cynulliad i wneud nifer o newidiadau trefniadol. Crëwyd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar 1 Ebrill 2000 fel asiantaeth weithredol o fewn y Cynulliad. Mae'r swyddfa honno yn gyfrifol am reoli Rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewrop, y Cynllun Datblygu Gwledig a'r Gronfa Adfywio Leol. Bydd yn chwarae rhan amlwg wrth ddatblygu economi Cymru a safonau byw ledled Cymru yn arbennig o gofio ei bod yn rheoli'r arian newydd o Ewrop sydd ar gael yn ystod y cyfnod 2000-06.

7.5 Daeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i fodolaeth ar 1 Medi 2000 i roi cyfle i'r proffesiwn addysgu arwain a llunio newid addysgol ei hun o fewn Cymru. Nod y Cyngor yw darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar ran pob athro yng Nghymru ac mae wedi ymgymryd â'r dasg ei hun drwy ddatblygu Côd Ymddygiad ac Arfer Proffesiynol. Un newid pellach ym maes addysg yw sefydlu Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol i Gymru o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Bydd y Cyngor, sydd yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a fydd yn ymarfer ei swyddogaethau o 1 Ebrill 2001, yn gyfrifol am hybu, sicrhau ac ariannu addysgu a hyfforddiant ar ôl gadael ysgol ledled Cymru, ac eithrio addysg uwch.

7.6 Caiff Cyngor Gofal Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru eu sefydlu o fewn y Cynulliad, yn ystod 2001-02 ac ar 1 Ebrill 2002 yn eu tro, o dan y Ddeddf Safonau Gofal 2000. Sefydlodd y Ddeddf honno hefyd swydd Comisiynydd Plant Cymru yn dilyn argymhellion Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad yn ei adroddiad 'Comisiynydd Plant i Gymru', a gyhoeddwyd ym mis Mai 2000. Bydd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn chwarae rôl weithredol wrth ddatblygu'r cyrff newydd hyn drwy ddarparu cyngor ar nifer o faterion yn cwmpasu meysydd fel cyfrifo, systemau rheolaeth fewnol a phriodoldeb. Edrychaf ymlaen

at weithio'n agos gyda'r cyrff hyn a chyflwynaf adroddiadau i'r Cynulliad yn y dyfodol ar eu cynnydd.

## Ychwanegu Gwerth

7.7 Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn rhoi cyngor i sefydliadau cleientiaid, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, ar faterion cyfrifo, materion rheoliadol ac amgylchedd rheoli. Mae'r adroddiadau i'r rheolwyr yn rhoi sicrwydd i Swyddogion Cyfrifo, ac yn gwneud argymhellion i wella eu systemau rheolaeth ariannol fewnol. Mae rheoleidd-dra a phriodoldeb yn faterion allweddol o fewn y sector cyhoeddus, ac mae gwaith archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad a'i gyrff noddedig mewn perthynas â'r agweddau pwysig hyn.

7.8 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru bwriadaf barhau i ddarparu gwasanaeth effeithlon, effeithiol a darbodus i'r Cynulliad ar archwiliad ariannol a gwerth am arian, a cheisiadau eraill am fy ngwaith, gyda'r nod o helpu i wario arian y trethdalwyr yn ddoeth.

# ATODIAD

## Cyfrifon a gwmpesir gan yr adroddiad hwn

Mae'r Adroddiad hwn yn cwmpasu cyfrifon 1999-00 a baratowyd gan y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a archwiliaf.

## Cyfrifon a baratowyd gan y Cynulliad

- Cyfrif adnoddau'r Cynulliad ar gyfer y cyfnod 7 Mai 1999 i 31 Mawrth 2000
- Cadw
- Trethi busnes Cymru
- Cyfrif cryno o Gyngor Hyfforddiant a Menter Cymru
- Tri chyfrif cryno GIG Cymru (yr Awdurdodau Iechyd; Ymddiriedolaethau'r GIG; a Chronfeydd a Ddelir ar Ymddiriedolaeth)
- Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

Paratôdd y Cynulliad gyfrifon Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chyfrif y Swyddfa Gymreig am y tri mis cyn trosglwyddo'r swyddogaethau i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Archwiliwyd y cyfrifon hyn gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol.

## Cyfrifon a baratowyd gan gyrff eraill a gategoreiddiwyd yn ôl maes y testun

### Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru
- Menter Coedwigaeth Cymru

### Datblygu Economaidd

- Bwrdd Croeso Cymru
- Awdurdod Datblygu Cymru

### Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd

### Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd

- Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

### Addysg a Hyfforddiant Ôl a Chyn-16, Chwaraeon, Diwylliant a Threftadaeth

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Bellach
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Cyfrif Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cyfrif Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Estyn

### Arall

- Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru
- Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru

## Cyfrifon eraill

Mae'r Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon canlynol:

- **Cyfrifon Dosbarthu'r Loteri.** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn ddosbarthwyr y Loteri yng Nghymru. Mae'r ddau yn paratoi cyfriflen. Cyflawnir y gweithgareddau hyn o dan awdurdod dirprwyedig gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon;
- **Mae'r Gronfa Arweiniad a Sicrwydd Amaethyddol Ewropeaidd** yn talu cymorthdaliadau i ffermwyr Cymru drwy'r Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Paratoir y cyfrifon hyn ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd ar ffurf a bennir ganddynt hwy.